**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

15 Tachwedd 2023

Annwyl Delyth,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad *'Cysylltiadau Cymru-Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd'* yn dilyn eu hymchwiliad i'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.

Mae Cymru ac Iwerddon yn gymdogion agos ac maent wedi meithrin perthynas gref a chadarnhaol ar sail hen hen gysylltiadau a chyd-ddealltwriaeth ddiwylliannol ddofn. Mae ein perthynas fodern a byrlymus wedi tyfu o gysylltiadau hanesyddol, treftadaeth a diwylliant cyffredin, a pherthynas agos rhwng pobl, busnesau a chwaraeon a pherthynas ddiwylliannol agos.

Ers lansio'r Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd, rydym wedi cefnogi amrywiaeth o bartneriaethau, mentrau a chyfnewidiadau polisi ar draws y chwe maes cydweithredu, yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau o dan ofal llywodraeth i feithrin cydweithrediad a pherthynas waith agosach rhwng Cymru ac Iwerddon.

Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor ennyn trafod yn Fforwm Cymru Iwerddon a gynhaliwyd fis diwethaf yng Ngogledd Cymru. Roedd yn gyfle pwysig i barhau â'r berthynas hon a'r partneriaethau hyn. Prif destunau sylw'r Fforwm oedd ynni adnewyddadwy, sgiliau, astudio ac iaith a'r celfyddydau.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod. Mae'n bwysig cofio mai cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon yw'r Cyd-ddatganiad. Rydym yn gyfrifol ar y cyd am ei gyflawni ac felly, bydd angen ymgynghori â Llywodraeth Iwerddon ar rai o'r argymhellion yn yr adroddiad, a chael ei chytundeb iddynt.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.